

8 F FARWÉL FO I LANGYFELACH LON

(FAREWELL TO GAY LLANGYFELACH)

1. Ffar-wél fo i Lan - gyf - el - ach lon, A'r merch-ed ieu - ainc i gyd o'r
bron; 'Rwy'n mynd i drei-o pa un sydd well...Ai 'ngwlad fy hun neu'r gwled-ydd pell.

- (a) Amrywiai'r nodyn hwn rhwng ♩ a ♪ o ran hyd yn y gwahanol benillion a recordiwyd. (a) *This note varied between ♩ and ♪ value in the various stanzas recorded.*
- (b) Yn y pennill cyntaf nid oedd angen y nodyn hwn ar gyfer yr union fersiwn o'r geiriau a recordiwyd. (b) *In the first stanza this note was not required for the version of the text obtained in the original recording.*

2. A martsio wnes i yn y blaen
Nes imi ddod i dre Pont-faen,
Ac yno 'roeddent, yn fawr eu sbort,
Yn listio'r gwŷr at y *Duke of York*.
3. Mi drois fy mhen ac i ryw dŷ,
Yr aur a'r arian oedd yno'n ffri,
Y dryms a'r ffeiffys yn canio'r swŷn—
A listio wnes at y *Light Dragoon*.
4. 'Rôl imi fartsio i Lundain fry,
Diwiti caled ddaeth arnom ni,
Sef handlo'r dryll a'r cleddyf noeth,
Y bwlets plwm a'r powdwr poeth.
5. Fe ddaeth *despatch* yn fore iawn,
A daeth un arall y prynhawn,
Fod yr *English fleet* yn hwylio i ma's
I frwydr dros y moroedd glas.
6. Ffarwél fy nhad a'm hannwyl fam,
Sydd wedi'm magu a'm dwyn i'r lan
Yn dyner iawn ar aelwyd lân,
A chan ffarwél fo i'r merched glân.
7. Os hola rhai pwy wnaeth y gân,
Atebwch hwy mai merch fach lân
Sydd yn gweddio nos a dydd
Am i'w hannwyl gariad gael dod yn rhydd.
8. 'Rôl imi aros amser hir,
Yn rhydd y daeth, 'rwy'n dweud y gwir;
Dychwelodd ef i'w fro ei hun,
Ces roddi cusan ar ei fin.
9. Fe ddaeth ag arian ganddo'n stôr
O'r gwledydd pell tu draw i'r môr,
A'r cyntaf peth a wnaeth o'i serch
Dedd chwilio am ei annwyl ferch.
10. Offeiriad alwyd yno'n glau
I'n rhwymo ni yn un ein dau;
Cawn fyw mewn llwyddiant drwy ein ho(e)s,
A chysgaf rhwng ei freichiau'r nos.
11. Cymerwch gyngor, ferched llon,
Os aiff eich cariad dros y don;
I beidio rhodio'n wamal ffôl,
Ond byddwch driw nes try yn ôl.
12. Mi gefais gynnig lawer gwaith,
Do, ar gariadon, chwech neu saith,
Ond, coeliwch fi, 'roedd ganmil gwell
Im gofio'r mab yn y gwledydd pell.
13. Fe aeth â'm calon gydag e',
Ond eiddo'i hun rodd yn ei lle,
A deddf atyniad cariad cun
A wnaeth ein c'lonnau bach yn un.

Y prif amrywiadau yn natganiad y canwr: 1.3. mynd gal gweld pa. 3.3. dryms a'r ffidls yn cadw swŷn. 4.1. 'Rôl inni gyrraedd Llundon. 4.2. Daeth diwiti galed. 5.1. A llythyr ddaeth. 5.4. I frwydro dros y cenfor glas. 6.3. Mewn *sense* ac oedran o flaen y tan. 7.1. Os hola rh(y)wun. 7.2. Dywedwch wrtho. 7.3. 'Rhon a weddie. 11.1. 'Wel, cymwch gyngor. 11.2. Os â. 11.3. O. peidiwch. 11.4. nes daw e'n ôl.

Tâp AWC 456. Recordiwyd (Penillion 1–6 yn unig) 25.1.62 gan Bertie Stephens (bridiwr cŵn hela, etc., g. 1900), Llwynpelyn, Llangaitho, sir Aberteifi. Yn Abergorlech, sir Gaerfyrddin, y magwyd BS. Yr oedd ganddo rai dagau o gerddi llafar gwlad yn fyw ar ei gol a chanodd lawer arnynt mewn cyngherddau. Cododd y gân hon oddi wrth ei dad, brodor o Dregaron.